**RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod hybrid o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ddydd Iau, 5 Mawrth 2026**

**Yn bresennol:**

Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint ap Ifan Bebb, Non Dafydd (Cadeirydd/Chair), Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas Massie Fowlie, Celfyn Furlong, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Carwyn Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, A M Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Ieuan Williams a Arfon Wyn

**Ymddiheuriadau** :

Y Cynghorwyr Llio Angharad Owen, Alwen Pennant Watkin, Robin Williams, Sonia Williams a Liz Wood

(2.00 o'r gloch yp – 4.20 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1. Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2025 yn gywir.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2. Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | B**u'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol yn Eitem 5 - Rhybudd o Gynnig gan ei fod yn Aelod o'r Ymddiriedolaeth Wiwerod coch ac yn dilyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddo gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais.**<br><br>**Bu'r Prif Swyddogion ddatgan diddordeb sylweddol yn Eitem 14 - Datganiad Polisi Tâl 2026 ac fe wnaethant adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5. Rhybydd o Gynnig** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Dylan Rees:-**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig** |

| | |
|---|---|
| | **bod Cyngor Sir Ynys Môn yn galw ar Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, i gymryd y camau angenrheidiol i gomisiynu sefydliad priodol i gynnal ymchwil brechu er mwyn amddiffyn gwiwerod coch rhag y frech wiwerod.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6. Cyflwyno Deisebau** |
| PENDERFYNIAD | **Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7. Rheoli'r Trysorlys - Adolygiad Canol Blwyddyn 2025/26** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD, yn unfrydol, i dderbyn Adroddiad yr Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/2026.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8. Strategaeth Gyfalaf 2026 -2031** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD, yn unfrydol, i dderbyn y Strategaeth Gyfalaf 2026-2031.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9. Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026/27** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD, yn unfrydol, i gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2026/2027.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2026/2027** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD :-**<br><br>• **Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2026/2027.**<br>• **Derbyn y Penderfyniad drafft ar y Dreth Gyngor, fel y nodir yn (ch) ar y Rhaglen.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11. Diwygio'r Cyfansoddiad - Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu** |

| | |
|---|---|
| | **Blynyddol y Cyngor yn Derfynol** |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd yn unfrydol cymeradwyo'r newid arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12. Cydbwysedd Gwleidyddol Pwyllgorau** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol:-**<br><br>• **Bod y Cyngor yn cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi ar bwyllgorau fel yr amlinellwyd yn Atodiad A.**<br>• **Bod y seddi gwag yn cael eu dynodi i'r ddau aelod unigol.**<br>• **Bod Arweinyddion Grwpiau yn hysbysu'r Pennaeth Democratiaeth cyn gynted ag y bo modd os bydd unrhyw newid o ran aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13. Datganiad Polisi Trwyddedu 2026 - 2031** |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd yn unfrydol mabwysiadu'r Datganiad Polisi Trwyddedu Drafft ar gyfer 2026-2031.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14. Datganiad Polisi Tâl 2026** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2026/2027.** |